

## Beth yw dyneiddiaeth?: gweithgaredd llenwi'r bylchau

Mae dyneiddiaeth yn fydolwg neu agwedd \_\_\_\_\_ at fywyd y mae miliynau o bobl yn y DU a ledled y byd yn ei rhannu. Mae dyneiddwyr yn credu ei bod yn bosibl byw bywyd da, hapus ac ystyrlon heb fod angen crefydd.

Mae dyneiddwyr yn credu bod y byd yn lle \_\_\_\_\_ heb unrhyw ochr oruwchnaturiol. Nid ydyn nhw'n credu mewn duw. Maen nhw'n ceisio defnyddio \_\_\_\_\_, ac yn chwilio am \_\_\_\_\_, i ateb cwestiynau am y byd.

Mae gwyddoniaeth wedi darganfod bod bodau dynol wedi \_\_\_\_\_ yn naturiol. Rydym ni wedi datblygu llawer o ddoniau a galluoedd. Mae dyneiddwyr yn credu, os byddwn ni'n defnyddio ein galluoedd yn dda, fod gennym ni'r \_\_\_\_\_ i wneud bywyd yn well i bobl eraill ac anifeiliaid.

Mae dyneiddwyr yn credu mai dyma'r \_\_\_\_\_ sydd gennym ni, felly mae angen i ni wneud y gorau ohono. Maen nhw'n credu y dylem ni i gyd fod yn \_\_\_\_\_ i benderfynu sut yr ydym ni'n byw (ar yr amod nad ydym ni'n achosi niwed i eraill). Dylem ni geisio dod o hyd i'r hyn sy'n ein gwneud ni'n \_\_\_\_\_ a chefnogi eraill i wneud yr un peth.

Yn ôl llawer o ddyneiddwyr, dylem ni drin pobl eraill yn garedig ac yn deg. Wrth benderfynu sut i drin eraill, dylem ni ddefnyddio \_\_\_\_\_. Dylem ni ystyried canlyniadau ein gweithredoedd a'r effaith debygol ar bobl ac anifeiliaid eraill. Mae llawer o ddyneiddwyr yn edmygu ac yn ceisio byw yn ôl \_\_\_\_\_: 'Dylech chi drin pobl eraill fel y byddech chi eisiau cael eich trin yn eu sefyllfa nhw. Peidiwch â thrin eraill mewn ffordd na fyddech chi'n hoffi cael eich trin eich hun.'

I ddyneiddwyr, bodau dynol yn unig sy'n \_\_\_\_\_ am wneud y byd yn lle gwell. Mae llawer yn ymgyrchu dros gydraddoldeb a hawliau dynol. Maen nhw'n dathlu'r cynnydd yr ydym ni wedi'i wneud, ond yn cydnabod y gwaith sy'n dal i'w wneud.

hapus	digrefydd	empathi	naturiol	potensial	dystiolaeth
gwyddoniaeth	Rheol Aur	esblygu	rhydd	gyfrifol	unig fywyd

## Beth yw dyneiddiaeth?: gweithgaredd llenwi'r bylchau (atebion)

Mae dyneiddiaeth yn fydolwg neu agwedd **ddigrefydd** at fywyd y mae miliynau o bobl yn y DU a ledled y byd yn ei rhannu. Mae dyneiddwyr yn credu ei bod yn bosibl byw bywyd da, hapus ac ystyrlon heb fod angen crefydd.

Mae dyneiddwyr yn credu bod y byd yn lle **naturiol** heb unrhyw ochr oruwchnaturiol. Nid ydyn nhw'n credu mewn duw. Maen nhw'n ceisio defnyddio **gwyddoniaeth**, ac yn chwilio am **dystiolaeth**, i ateb cwestiynau am y byd.

Mae gwyddoniaeth wedi darganfod bod bodau dynol wedi **esblygu** yn naturiol. Rydym ni wedi datblygu llawer o ddoniau a galluoedd. Mae dyneiddwyr yn credu, os byddwn ni'n defnyddio ein galluoedd yn dda, fod gennym ni'r **potensial** i wneud bywyd yn well i bobl eraill ac anifeiliaid.

Mae dyneiddwyr yn credu mai dyma'r **unig fywyd** sydd gennym ni, felly mae angen i ni wneud y gorau ohono. Maen nhw'n credu y dylem ni i gyd fod yn **rhydd** i benderfynu sut yr ydym ni'n byw (ar yr amod nad ydym ni'n achosi niwed i eraill). Dylem ni geisio dod o hyd i'r hyn sy'n ein gwneud ni'n **hapus** a chefnogi eraill i wneud yr un peth.

Yn ôl llawer o ddyneiddwyr, dylem ni drin pobl eraill yn garedig ac yn deg. Wrth benderfynu sut i drin eraill, dylem ni ddefnyddio **empathi**. Dylem ni ystyried canlyniadau ein gweithredoedd a'r effaith debygol ar bobl ac anifeiliaid eraill. Mae llawer o ddyneiddwyr yn edmygu ac yn ceisio byw yn ôl **y Rheol Aur**: 'Dylech chi drin pobl eraill fel y byddech chi eisiau cael eich trin yn eu sefyllfa nhw. Peidiwch â thrin eraill mewn ffordd na fyddech chi'n hoffi cael eich trin eich hun.'

I ddyneiddwyr, bodau dynol yn unig sy'n **gyfrifol** am wneud y byd yn lle gwell. Mae llawer yn ymgyrchu dros gydraddoldeb a hawliau dynol. Maen nhw'n dathlu'r cynnydd yr ydym ni wedi'i wneud, ond yn cydnabod y gwaith sy'n dal i'w wneud.

hapus	digrefydd	empathi	naturiol	potensial	dystiolaeth
gwyddoniaeth	y rheol Aur	esblygu	rhydd	gyfrifol	unig fywyd